**Dylunio Blaenau Siopau**

Hoffem sicrhau bod blaen eich siop newydd yn gyfraniad cadarnhaol i'r stryd fawr. Isod mae rhai ystyriaethau i chi eu gwneud wrth ddylunio blaen eich siop.

1. Adeiladau hanesyddol. Ni ddylid cynllunio blaen y siop ar ei ben ei hun ond ei ystyried fel rhan o bensaernïaeth yr adeilad. Edrychwch uwchlaw ac i’r naill ochr i flaen y siop, a oes nodweddion pensaernïol i'w parchu a'u gwella? Dylech adfer nodweddion fel gwaith haearn, teils mosaig neu derracotta, gwaith carreg cerfiedig neu wydr lliw os yn bosibl. Mewn ardaloedd sydd â chymeriad treftadaeth iddynt, mae llythrennau wedi'u paentio â llaw, neu lythrennu metel a osodir yn unigol yn ddewisiadau da. Dylid ffasgau fod yn rhai pren wedi eu paentio yn hytrach na phlastig.
2. Cyfrannau. Os ychwanegwch arwydd ar i fframwaith sy'n bodoli eisoes, cadwch at y cyfrannau gwreiddiol. Lle mae paneli i’w cael ar waelod ffenestri siop, dylid eu cadw. Os ydych yn adeiladu blaen siop newydd, sicrhewch fod maint y ffenestr yn addas ar gyfer cyfrannau'r adeilad. Os ydych yn newid y fynedfa, ystyriwch ddilyn yr un patrwm â siopau cyfagos o ran maint, portsh, siâp a deunyddiau. Dylai blaen y siop fod yn cyd-fynd â siopau cyfagos a pheidio â chael ei osod yn ôl nac ymwthio ymlaen. Os ydych yn ehangu eich siop i gynnwys yr uned drws nesaf, dylai is-adran blaen y siopau barchu uniondeb yr adeiladau unigol o hyd.
3. Cymeriad lleol a siopau cyfagos. Ystyriwch gymeriad lleol yr ardal, y deunyddiau a'r lliwiau a ddefnyddir yn y cyffiniau sydd ger llaw. A oes lliwiau penodol a ddefnyddir yn nyluniad stryd y parth cyhoeddus, neu liwiau brandio tref y gallech chi blethu â nhw? Cydbwyswch eich brandio eich hun gyda'r angen i ategu’r strydlun. Mae angen i'ch arwyddion fod yn glir ond i beidio tra-arglwyddiaethu. Ni ddylai arwyddion orchuddio'r ffenestri chwaith gan fod blaen siopau tryloyw yn cyfrannu at strydlun fwy bywiog.
4. Caeadau Dylech osod caeadau diogelwch dim ond os ydynt yn gwbl angenrheidiol a dylid eu hintegreiddio i flaen y siop yn hytrach na’u 'bolltio ymlaen', gan orchuddio'r rhannau gwydr yn unig. Gellir gwella caeadau solet gyda gwaith celf er mwyn osgoi bod y strydlun yn troi’n ofod 'marw' gyda'r nos.